**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **18 Ionawr 2022** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

1.3 Wrth baratoi cyllideb 2022/23, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3 o ran cynlluniau arbedion 2022/23:
- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
  - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
  - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol
- nodi mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn Atodiad 3.

## 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2021/22 a blynyddoedd blaenorol ac hefyd yn edrych ar gynlluniau arbedion sydd wedi eu cynllunio ar gyfer 2022/23.

2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £966,720 yn 2021/22, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2021.

2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o £32.8 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £34.8m gofynnol dros y cyfnod. Mae 45% o arbedion 2021/22 wedi eu gwireddu hyd yma a 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol eleni.

2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 3. AIL-ASESU ARBEDION

3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos gwerth yr arbedion a gafodd eu dileu neu eu gohirio i 2022/23:

**Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio i 2022/23**

| | Gohirio i 2022/23<br>£ | Dileu<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cynlluniau 2017/18 - 2020/21 | 1,037,750 | 848,040 |
| Cynlluniau 2021/22 | 511,250 | 595,450 |
| CYFANSWM | 1,549,000 | 1,433,490 |

3.3 Yn dilyn o adolygiad o sefyllfa arbedion yr adrannau a gyflwynwyd i'r Cabinet 12 Hydref 2021, nodwyd fod gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Yn ystod Tachwedd 2021, bu cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i drafod y cynlluniau sydd yn profi i fod yn heriol ganddynt, mi fydd y cynlluniau yn cael eu hystyried ymhellach wrth lunio cyllidebau 2022/23.

## 4. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2020/21

4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2020/21, **cyfanswm o bron i £34m. Calonogol yw gallu adrodd bod dros £32m, neu 96% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o wireddu'r arbedion rhai o'r cynlluniau'n parhau.

4.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2019/20 a 2020/21, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

4.3 Mae 25 o gynlluniau gwerth cyfanswm o bron i £820k wedi llithro. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithriad mewn rhai o'r cynlluniau arbedion ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

4.4 Mae 6 cynllun arall sydd werth cyfanswm o £652k gyda risgiau i'w cyflawni. 4 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac 1 cynllun yr un gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Economi a Chymuned. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithro rhai elfennau o'r cynlluniau arbedion, ond posib fod angen ystyried nawr os oes wirioneddol modd cyflawni'r arbedion ynteu a oes angen cynnig cynlluniau a dulliau amgen ar gyfer gwireddu'r arbedion.

## 5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2021/22. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £967k gyda gwerth £436k, sef 45% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £188k pellach sef 19% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

5.2 Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng ers Mawrth 2020.

5.3 Bu llithriad ar 4 cynllun ar draws y Cyngor gyda chyfanswm o £214k ond maent yn symud yn eu blaen sydd yn cynnwys 1 cynllun yr un gan yr Adran Amgylchedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

5.4 Rhagwelir risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £129k sydd yn cynnwys cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* (£20k) gan yr Adran Gyllid, *Adolygu'r trefniadau gweithredu* Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£34k) a *Chynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£75k). Mae'r Adrannau yn gweithio i symud ymlaen gyda'r cynlluniau yma.

## 6 CYNLLUNIAU ARBEDION HYD AT 2021/22

6.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £32.8m o arbedion (allan o gyfanswm o £34.8m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

6.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 sydd yn nodi fod 94% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| Statws yr Arbediad | Porth | £m | % |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 32.8 | 94.3 |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.2 | 0.5 |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 1.0 | 3.0 |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu | 4 | 0.8 | 2.2 |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.0 | 0.0 |
| **Cyfanswm arbedion** | | **34.8** | |

## 7. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23

7.1 Rhestrir arbedion 2022/23 yn **Atodiad 3**. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23 gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Cyllid, yr hyn sydd yn amlwg yw fod rhaid cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni 2 gynllun arbedion gwerth £489,750. 1 cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' gwerth £279,750 yn yr Adran Plant a Theuluoedd ac 1 cynllun 'Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill' yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan eu dileu o'r gyllideb.

7.2 O ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys ardrawiad Covid nid yw'n ymarferol bellach i werth £1,290,250 o arbedion gael eu cyflawni yn 2022/23, sydd yn cynnwys cynllun arbedion £155,000 yn yr Adran Economi a Chymuned a 4 cynllun arbedion gwerth £1,135,250 yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Felly y dylid ail-broffilio y cynlluniau arbedion i 2023/24 a blynyddoedd dilynol fel a nodir yn **Atodiad 3**.

7.3 Yn dilyn dileu a llithro arbedion a nodir yn 7.1 a 7.2 uchod, nodi mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn **Atodiad 3**.

## 8. CASGLIAD

8.1 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion hyd at 2021/22. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.

8.2 Argymhellir fod y Cabinet yn cymeradwyo'r camau i ddileu a llithro arbedion a nodir yn rhan 7 o'r adroddiad ac **Atodiad 3** gan dderbyn mai £595,000 fydd gwerth yr arbedion diwygiedig ar gael i gefnogi cyllideb 2022/23.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2020/21 fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23